# Ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar amrywiaeth mewn llywodraeth leol

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn croesawu penderfyniad y Pwyllgor i ailymweld â'r maes hwn, gan adeiladu ar y gwaith a wnaed gan Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn y Pumed Senedd.

Rydym wedi rhoi ychydig o wybodaeth isod, yn unol â'r penawdau perthnasol o adroddiad 2019, a gobeithiwn y bydd o gymorth.

## Bwlio, gwahaniaethu ac aflonyddu

- Fel rhan o'n hadrodd ar ôl y bleidlais yn dilyn etholiadau lleol mis Mai 2022, gwnaethom gynnal arolwg ymgeiswyr. Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau yn ymwneud â cham-drin ac aflonyddu a brofwyd gan ymgeiswyr, a chafwyd 162 o atebion.
- Dywedodd 3 o bob 5 ymgeisydd a ymatebodd i'n harolwg (60%) nad oeddent wedi cael unrhyw broblemau gyda chamdriniaeth neu fygythiad; fodd bynnag roedd 40% wedi profi rhyw fath o broblem ac roedd 8% wedi profi problem ddifrifol.[2]
    - O'r rheiny a ddywedodd wrthym eu bod wedi profi rhyw fath o gamdriniaeth, roedd y ffynonellau mwyaf cyffredin ar lafar (69%) ac ar-lein (46%)
    - Dywedodd dros ddau o bob tri (69%) bod y gamdriniaeth roeddent wedi'i phrofi wedi dod gan aelodau o'r cyhoedd. Dywedodd bron i 2 ym mhob 5 (39%) eu bod wedi profi camdriniaeth gan ymgeiswyr eraill, tra dywedodd 15% eu bod wedi profi camdriniaeth neu fygythiadau gan ymgyrchwyr neu wirfoddolwyr
    - Gwelodd 16% gamdriniaeth neu fygythiadau at y rheiny oedd yn ymgyrchu ar eu rhan
    - O'r rheiny sydd wedi profi neu sydd wedi gweld camdriniaeth, dywedodd 15% eu bod wedi adrodd amdano i'r heddlu, a dywedodd bron i un ym mhob pump a brofodd camdriniaeth neu fygythiadau y byddai eu profiad yn gwneud iddynt feddwl am beidio â sefyll yn y dyfodol
- Cawsom hefyd wybodaeth gan bedwar Pwynt Cyswllt Unigol yr heddlu yng Nghymru ynghylch problemau a gafwyd yn ystod cyfnod yr etholiad. Dywedwyd bod ymddygiad rhywfaint o ymgeiswyr yn wael, yn enwedig ar gyfryngau cymdeithasol.

[2] Safodd dros 3,000 o ymgeiswyr etholiad ledled Cymru yn 2022. Cafodd ein harolwg 162 o ymatebion o bob un o'r 22 o awdurdodau lleol, ac atebodd 143 o'r ymatebwyr y cwestiwn am gam-drin. Gofynnwyd i'r ymgeiswyr: "Ar raddfa o 1-5, lle mae 1 yn golygu dim problem o gwbl a 5 yn golygu problem ddifrifol, faint o broblem gawsoch chi gydag achosion o fygwth, cam-drin neu fygylu yn yr etholiad hwn, os o gwbl?" Ystyriwyd bod ymatebwyr a roddodd sgôr o 2 neu uwch wedi profi achos o fygwth, cam-drin neu fygylu. Ystyriwyd bod ymatebwyr a roddodd sgôr o 4 neu uwch wedi profi problem ddifrifol.

- Mae Pwyntiau Cyswllt Unigol yr heddlu wedi cynnig eu bod nhw, ar ran y lluoedd heddlu yng Nghymru, yn creu canllawiau i ymgeiswyr ac ymgyrchwyr ar y disgwyliadau ynghylch ymddygiad yn ystod cyfnod etholiad, a dylid darparu'r canllawiau hyn i'r ymgeiswyr i gyd fel rhan o'r broses enwebu. Byddai'r canllawiau newydd hyn yn eistedd ochr yn ochr â'r adnoddau sydd eisoes ar gael ar wefan y Coleg Heddlua ac sy'n berthnasol i ymgeiswyr, a'r Cod Ymddygiad ar gyfer ymgyrchwyr.

- Byddwn yn gweithio gyda'r lluoedd heddlu perthnasol a phwyntiau cyswllt unigol yr heddlu wrth ddatblygu a chefnogi'r deunydd hwn. Byddwn yn gweithio hefyd gyda Llywodraeth Cymru a'r gymuned etholiadol ehangach i wneud yn siŵr ein bod yn deall beth sy'n achosi i ymgeiswyr gael eu cam-drin a'u bygwth, ac i ddatblygu ymatebion effeithiol i ddiogelu ymgeiswyr ac ymgyrchwyr mewn etholiadau yn y dyfodol.

## System addysg

- Yn dilyn estyniad y bleidlais i bobl ifanc 16 ac 17 oed yng Nghymru, rydym wedi parhau â'n gwaith i helpu pobl ifanc ddeall sut i ymgysylltu â'r broses ddemocrataidd.
- Canfu ein hadroddiadau ar etholiad y Senedd yn 2021 a'r etholiad llywodraeth leol yng Nghymru yn 2022 fod tua 50% o bobl ifanc wedi'u cofrestru i bleidleisio. Rydym yn argymell bod angen addysg ac ymgysylltu pellach i gefnogi pleidleiswyr sydd newydd eu rhyddfreinio i ddeall a chyfranogi mewn etholiadau yng Nghymru.
- Rydym yn parhau i ddatblygu ein deunyddiau addysg a chymorth i athrawon er mwyn mynd i'r afael â hyn gyda chefnogaeth gan bartneriaid allweddol, Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Senedd. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda'r Democracy Box, sefydliad sy'n cael ei arwain gan bobl ifanc, i gael adborth gan bobl ifanc ar ein hadnoddau presennol a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol.
- Mae sampl o ysgolion yng Nghymru hefyd wedi bod yn cymryd rhan mewn prosiect peilot a ddatblygwyd gennym i gynnal refferendwm ysgol ar bwnc sydd o ddiddordeb i'r disgyblion – mae hyn yn rhan o gynllun newydd o adnoddau rydym yn gweithio arno i gefnogi'r cwricwlwm newydd.

## Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig

- Croesawyd y penderfyniad i dreialu'r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig Cymru yn etholiadau 2021 a 2022 ac rydym yn cefnogi'r bwriad i sefydlu'r gronfa yn barhaol.

- Rydym yn cefnogi cynlluniau i estyn cylch gwaith y gronfa mewn egwyddor er mwyn cynnwys grwpiau ehangach nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol cael rhagor o fanylion gan Lywodraeth Cymru o ran beth y byddai hyn yn ei olygu a sut y byddai'n sicrhau bod y gronfa'n cael ei hariannu'n ddigonol i gefnogi rhagor o ymgeiswyr o bosibl.

- Yn ogystal â'r ystyriaethau uchod, awgryma ein harolwg o ymgeiswyr yn dilyn etholiadau lleol 2022 y gellir gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth o'r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig, oherwydd awgrymodd llai nag un rhan o dair o'r ymatebwyr (29%) eu bod yn gwybod amdani. Gwnaethom argymell y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau priodol i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r gronfa cyn yr etholiadau nesaf sydd wedi'u trefnu yn 2026 a 2027.